

CYFARFOD ARBENNIG y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Ionawr 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl, yn cychwyn am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Miss E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, A. J. Rutherford, D. Simmons a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

102. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), P. Prendergast (ar wyliau), W. N. Tasker (ar wyliau), y Parchedig. S. Walker (ymrwymiad gwaith) a Miss C. L. Williams (ymrwymiad gwaith).

103. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

104. CYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD

Ymhellach i gofnod rhif 86 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Rhagfyr 2016, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar yr effaith bosibl ar gyllid y Cyngor Tref ac ar dalwyr y Dreth Gyngor yn y Rhyl, y gwahanol lefelau o gyfraniad y gofynnwyd amdanynt gan Gyngor Sir Ddinbych (£1 filiwn neu £2 filiwn ynghyd â llogau).

Dywedodd Clerc y Dref mai'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y Cyngor Tref fyddai i CSDd fenthyciad y cyfanswm sydd ei angen ac i'r Cyngor Tref wasanaethu ei gyfran ef o'r benthyciad. Byddai hyn yn galluogi i'r Cyngor Tref fanteisio ar gyfradd log is. Y gost i'r Cyngor Tref a thalwyr y Dreth Gyngor fyddai £52,500 y flwyddyn am £1 filiwn a £105,000 y flwyddyn ar gyfer £2 filiwn.

Ychwanegodd Clerc y Dref y byddai unrhyw gymorth a roddwyd ar hyn o bryd 'mewn egwyddor' ac yn amodol ar unrhyw ganiatâd gofynnol gan Lywodraeth Cymru. Amod o hyn yw bod yn rhaid i'r Cyngor fod yn agored a thryloyw gyda'r trigolion trwy gydol y broses gymeradwyo.

Pe byddai'r Aelodau yn penderfynu gwneud lefel o gyfraniad, dylent gytuno sut i ymgysylltu â'r cyhoedd o ran datganiadau i'r wasg yn y dyfodol ac ar ffurf y broses ymgynghori, os yn briodol. I'r perwyl hwn, awgrymodd Clerc y Dref ddefnyddio Gunsmoke Communications.

Cafwyd trafodaethau ar y canlynol:

- Y Cyngor Tref yn cael dychweliad cyfrannol ar ei fuddsoddiad pe byddai'r ganolfan acwatig yn mynd dros y lefel refeniw a ragwelwyd.
- Y ffioedd mynediad (yn arwyddocaol uwch na'r Ganolfan Hamdden ond yn gyfartal â neu'n rhatach nag atyniadau tebyg eraill yn y Gogledd-orllewin).
- Beth fyddai'n digwydd pe byddai CSDd yn penderfynu gwerthu'r cyfleusterau yn y dyfodol? A fyddai'r Cyngor Tref yn derbyn swm cyfrannol o'r pris gwerthu yn wyneb ei fuddsoddiad?
- Siarad gyda / hysbysu trigolion y Rhyl.
- Y gost i drethdalwyr y Rhyl a sut byddent yn teimlo am y cynnydd ym mhraesept y Cyngor.
- Pwysigrwydd 'rheoli ein neges' yn llwyddiannus a defnyddio Gunsmoke Communications i gael hyn yn iawn, a chysylltu â swyddfa'r wasg CSDd a Weber Shandwick.
- 100+ o swyddi adeiladu ac 80+ o swyddi'n cael eu creu ar ôl i'r lle agor.
- Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor Tref i leihau'r baich ar drethdalwyr y Rhyl.
- Anhawster cydbwysu agweddau cadarnhaol y prosiect gyda'r effaith negyddol ar y Dreth Gyngor.
- Yr effaith gadarnhaol a gawsai'r ganolfan acwatig ar y Rhyl o ran cynyddu nifer ymwelwyr yn rhoi hwb i'r economi lleol a rhoi hyder ar gyfer mwy o fuddsoddiad.
- Teimlo dan bwysau i gymryd penderfyniad mor bwysig mor gyflym.
- Y Cyngor Tref yn 'arwain' ar sesiynau ymgynghori ar y cyd gyda CSDd ac yn derbyn cydnabyddiaeth ddyledus ar bob datganiad i'r wasg, ac ati.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor Tref, 'mewn egwyddor', yn cynnig cyfraniad o £1 filiwn (£1.3 miliwn gyda llogau) i Gyngor Sir Ddinbych i adeiladu'r ganolfan acwatig, yn amodol ar ganiatâd gofynnol Llywodraeth Cymru ac ymgysylltiad cyhoeddus gyda thrigolion y Rhyl.

105. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: